# Cwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 14 Rhagfyr 1999

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

## Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd

### Arian Cyfatebol Sector Cyhoeddus ar gyfer Cronfeydd yr UE

**C7 Gareth Jones:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi'u cael ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar fater arian cyfatebol sector cyhoeddus y Llywodraeth ganolog ar gyfer cronfeydd yr UE yn y cyfnod rhaglennu newydd? (OAQ2603)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Fel y dywedais ar lawer achlysur, cyfarfyddaf ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn rheolaidd a thrafodwn amrediad o faterion, gan gynnwys oblygiadau Amcan 1 i'r gyllideb Gymreig a'r ymgyrch ryfedd sydd yn cael ei chynnal i danseilio hyder y cyhoedd yn llwyddiant posibl y rhaglen hon.

### Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad

**C8 Jenny Randerson:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd egluro pam fod cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad wedi cael cyfarwyddiadau i gyfathrebu â gweision sifil ac Ysgrifenyddion Cynulliad yn hytrach nag Aelodau eraill y Cynulliad? (OAQ2599)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Credaf fod hyn cystal â bod yn gamliwiad o lythyr diweddar yr Ysgrifennydd Parhaol at Brif Weithredwyr cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad a oedd yn atgoffâd amserol o'r llwybr mwyaf priodol i'w ddilyn er mwyn gwneud sylwadau ar y gyllideb ddrafft ragarweiniol. Nid oedd y llinellau cyfathrebu a nodwyd yn y llythyr yn golygu gwyriad oddi wrth y polisi presennol. Gosodwyd copi o'r llythyr yn y Llyfrgell.

### Tollau Pont Hafren (Codiad Arfaethedig)

**C9 Christine Humphreys:** A yw'r Prif Ysgrifennydd wedi cael trafodaethau ynglŷn â'r codiad arfaethedig yn nhollau Pont Hafren, yn enwedig mewn perthynas â'r canlyniadau i economi Cymru a modurwyr Cymru? (OAQ2620)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Codwyd mater talu TAW ar dollau yn gyntaf gan y Comisiwn Ewropeaidd yn 1987. Mae Llywodraeth y DU wedi gwrthod safbwynt y Comisiwn erioed. Rhoddwyd eglurhad llawn o'r effaith niweidiol bosibl yng Nghymru ac mae gennym sicrwydd ysgrifenedig oddi wrth y Tâl-feistr Cyffredinol y bydd yr achos yn cael ei amddiffyn gan Dollau Tramor a Chartref Ei Mawrhydi. Dyma'r hyn a ddigwyddodd yn y Llys Barn Ewropeaidd ar 23 Tachwedd. Mae swyddogion y Cynulliad mewn cysylltiad agos o hyd â'u cymheiriaid yn Whitehall.

### Brig-dorri Cyllid i Awdurdodau Lleol

**C10 Jonathan Morgan:** Pryd fydd y cynigion newydd yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor Partneriaeth ynglŷn â brig-dorri cyllid i awdurdodau lleol? (OAQ2617)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Nid oes gennyf fwriad cyflwyno cynigion newydd i'r Cyngor Partneriaeth ar y mater hwn. Efallai mai bwriad y cwestiwn yw cyfeirio at gynllun dampio treth y cyngor, y telir ei gost drwy frig-doriad o'r dyraniad i awdurdodau lleol. Mae'r trefniadau dampio yn ganlyniad i'r fformwla anfoddhaol a fu'n broblem ers ad-drefnu llywodraeth leol ac y gobeithiwn ymdrin â hi drwy fabwysiadu fformwla newydd a thecach erbyn 2001-02. Mae manylion y cynllun dampio arfaethedig ar gyfer 2000-01, a gyhoeddwyd gan Peter Law ar 7 Rhagfyr, yn seiliedig ar frig-doriad o £17 miliwn sef yr hyn a ddewiswyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel cyfangorff.

## Arian Cyfatebol (Cynnig a Fabwysiadwyd gan y Cynulliad)

**C11 Jocelyn Davies:** A yw'r Prif Ysgrifennydd wedi hysbysu Ysgrifennydd Gwladol Cymru bod y Cynulliad wedi mabwysiadu cynnig yn ystod y ddadl ar y dogfennau strategaeth Ewropeaidd ym mis Hydref a oedd yn nodi bod gweithredu'r dogfennau rhaglennu sengl yn dibynnu ar ddealltwriaeth gadarn y bydd y Cynulliad yn sicrhau cyllid ychwanegol o'r Trysorlys tuag at arian Barnett i dalu nid yn unig am ddyraniad strwythurol llawn Cymru o'r UE ond hefyd gydran gyhoeddus angenrheidiol yr arian cyfatebol? (OAQ2606)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ydwyf. Mae Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn llwyr ymwybodol o safbwynt y Cynulliad mewn perthynas ag oblygiadau ariannol Amcan 1 i'r gyllideb Gymreig.

## Adeilad Newydd y Cynulliad (Dyddiad Cwblhau)

**C12 Carwyn Jones:** Beth yw'r amcangyfrif diweddaraf ynglŷn â phryd y bydd adeilad newydd y Cynulliad wedi'i gwblhau? (OAQ2601)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Dros y misoedd diwethaf aethom drwy broses ddylunio ailadroddol er mwyn cywreinio'r dyluniad cysyniadol gwreiddiol. Mae safbwyntiau a phryderon Aelodau'r Cynulliad wedi eu llwyr dderbyn, nid yn lleiaf ynghylch mynediad ar gyfer pobl anabl a mynediad ar gyfer y cyhoedd i'r Siambr. Er bod hynny, o reidrwydd, wedi arwain at rywfaint o lithriant, mae'n bwysig cael yr egwyddorion dylunio sylfaenol yn iawn yn gynnar yn y prosiect.

Byddaf yn hysbysu arweinyddion y pleidiau a'r Llywydd yn ffurfiol fore yfory ynghylch y cynnydd a bydd y penseiri'n egluro'r modd y maent yn ymateb i bryderon y Cynulliad. Fel y dywedais o'r blaen, sicrheir wedyn y bydd gwybodaeth ar gael i Aelodau'r Cynulliad yn gyffredinol. Yn Ionawr bydd cyflwyniad i'r Cynulliad cyfan.

## Arian Cyfatebol ar gyfer y Cyfnod Rhaglennu Newydd

**C13 Helen Mary Jones:** O ystyried faint o arian a glustnodwyd yng nghyllideb y Cynulliad y flwyddyn nesaf ar gyfer arian cyfatebol, telir arian o gronfeydd yr UE i brosiectau a gymeradwywyd dan y cyfnod rhaglennu cyfredol. A yw'r Prif Ysgrifennydd yn disgwyl iddi fod yn amhosibl i'r Cynulliad ddod o hyd i arian cyfatebol ar gyfer y cyfnod rhaglennu newydd o'i adnoddau ei hun? (OAQ2607)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r cwestiwn yn seiliedig ar ragdybiaeth sydd yn afreidiol o negyddol. Nid yw'r arian a glustnodwyd yn benodol ar gyfer arian cyfatebol yng nghyllideb y flwyddyn nesaf ond yn cynnwys arian newydd sydd yn benodol ar gyfer y pwrpas hwnnw, gan gynnwys cronfa'r Ffordd i Ffyniant. Mae'r rhan helaethaf o arian cyfatebol wedi dod erioed o gyllidebau prif ffrwd amrediad eang o gyrff gan gynnwys awdurdodau lleol, Cwmnïau Hyfforddi a Menter, cynlluniau llywodraeth, y sector gwirfoddol. Gall y sector preifat gyfrannu hefyd drwy gwmnïau neu fanciau neu amryw o ffyrdd eraill.

Ar gyfer 2000, bydd digon o arian cyfatebol oddi wrth noddwyr dechreuol i ddygymod â'r prosiectau y disgwylir y bydd arnynt angen tâl yn y flwyddyn honno. Bydd y sefyllfa debygol o ran arian cyfatebol ar gyfer 2001 a thu hwnt yn rhan o ystyriaethau ehangach yng nghyd-destun yr adolygiad o wariant.

## Codiadau Arfaethedig mewn Treth Cyngor

**C14 Nick Bourne:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd wneud datganiad ynglŷn â sylwadau y mae wedi'u derbyn ar y codiadau arfaethedig mewn treth cyngor? (OAQ2621)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae Peter Law a minnau wedi derbyn nifer o sylwadau, gan gynnwys amryw oddi wrth Aelodau'r Cynulliad. Ysgrifennwyd y rhan fwyaf o'r llythyrau mewn ymateb i storïau cyfeiliornus yn y wasg ynghylch dampio treth y cyngor. Yr hyn a etifeddwyd gennym oddi wrth y llywodraeth ddiwethaf yw fformwla sydd yn annheg ac yn anymarferol. Mae pawb yn cytuno bod arnom angen fformwla newydd, decach a bwriadwn ei sefydlu yn 2001-02.

## Glanhau Alga o Fae Caerdydd (Costau)

**C15 Alison Halford:** Pwy sydd yn gyfrifol am gostau glanhau alga o Fae Caerdydd? (OAQ2595)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Fe'ch cyfeiriaf at y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a gytunais â Chyngor Dinas a Sir Caerdydd ym mis Hydref, yr anfonwyd copi ohono at bob Aelod ac a geir yn y Llyfrgell yma. O dan y Memorandwm, cytunodd y Cyngor i ddod yn gorff olynol i Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd o ran ei rhwymedigaethau ynghylch y Bae a'r morglawdd o dan Ddeddf Morglawdd Bae Caerdydd 1993.

Ar hyn o bryd nid oes problem gydag alga ym Mae Caerdydd. Pan fydd cyfuniad o lif dŵr isel a thymheredd uchel yn creu amodau a allai hybu twf alga bydd y cyfrifoldeb i ymdrin â hyn a materion ansawdd dŵr eraill yn fater i'r corff olynol drwy fesurau a gytunir â'r Cynulliad.

## Cynrychiolaeth Cymreig yn Nôm y Mileniwm

**C16 Peter Black:** Pa gamau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi'u cymryd, trwy'r sianeli priodol, i sicrhau bod iaith a diwylliant Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael eu hybu trwy gynrychiolaeth yn Nôm y Mileniwm? (OAQ2594)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Yn ystod 2000, caiff pob awdurdod lleol yng Nghymru ei ddiwrnod ei hun yn y Dôm pan fydd yn gallu dweud hanes ei ardal drwy ddawns, cerddoriaeth a drama. Bydd y perfformiadau, gan bobl ifainc yn bennaf, yn fodd i rannu iaith a diwylliant pob rhan o Gymru â chynulleidfa enfawr. Hefyd bydd Diwrnod Cymru ar 1 Mawrth. Bydd yn dilyn y patrwm uchod. Ymgynghorwyd â mi ynghylch y cynigion. Mae trafodaethau ar y fformat i'r diwrnod yn mynd ymlaen o hyd.

Nid y Dôm yw'r unig ganolbwynt i Brofiad y Mileniwm. Bydd cannoedd o ddigwyddiadau ledled Cymru y flwyddyn nesaf i ddathlu'r mileniwm. Bydd rhai o'r rhain wedi eu cysylltu'n uniongyrchol â'r Dôm ac fe'u gwneir yn bosibl gan noddwyr sydd yn gweithio gyda'r New Millennium Experience Company. Bydd y rhan fwyaf yn rhan o Ŵyl y Mileniwm gyda chymorth dosbarthwyr y lotri. Bydd y digwyddiadau hyn yn adnewyrchu blaenoriaethau ac arferion lleol.

## Arian Cyfatebol i Grantiau Ewropeaidd

**C17 Rhodri Glyn Thomas:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi'u cael ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynglŷn ag ymrwymiad y Trysorlys i roi arian cyfatebol i grantiau Ewropeaidd? (OAQ2609)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i OAQ2603.

## Treth Ar Werth ar Dollau Pont Hafren

**C18 Christine Chapman:** Pa asesiad y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi'i wneud o'r effaith ar adfywiad economaidd Cymru os yw'r Comisiwn Ewropeaidd yn llwyddo i orfodi Llywodraeth y DU i ychwanegu TAW at dollau Pont Hafren a pha gamau a gymerir ganddo i leihau unrhyw effaith andwyol? (OAQ2644)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Gall llawer o fodurwyr busnes adfer y TAW a dalant, a bydd hyn yn cynnwys unrhyw TAW a godir ar dollau. Ni wnaethpwyd unrhyw waith penodol oherwydd, yn yr un modd â phedair aelod wladwriaeth arall, mae Llywodraeth y DU yn credu bod y Comisiwn Ewropeaidd yn anghywir ac yr ydym yn herio safbwynt y Comisiwn.

### Caerdydd yn Ddinas o Ddiwylliant Ewropeaidd

**C19 Owen John Thomas:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd alw ar Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru i gyhoeddi rhestr o'r holl luniau y maent yn berchen arnynt y gellir eu disgrifio fel rhai sy'n tarddu o Gymru, er mwyn eu harddangos yn barhaol yn yr Oriel Gelf Genedlaethol i gefnogi cais Caerdydd i fod y Ddinas Ddiwylliant Ewropeaidd? (OAQ2611)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Gellir cael manylion am yr holl weithiau fframiedig yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar wefan y Llyfrgell. Ceidw'r Amgueddfa Genedlaethol gofnodion o'i holl ddarluniau olew ar gyfrifiadur, a bydd yn rhoi'r rhain ar ei gwefan yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Cyn hir bydd yr Amgueddfa Genedlaethol yn cynnal ymarfer ymgynghori ynghylch dulliau y dylai eu defnyddio i arddangos ei chasgliadau celf yn y dyfodol.

### Arian Cyfatebol (Cyfnod Rhaglennu Newydd)

**C20 Janet Ryder:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi'u cael ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â sicrhau arian cyfatebol digonol tuag at gronfeydd yr UE yn y cyfnod rhaglennu newydd? (OAQ2604)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i OAQ2603.

### Polisi Rheoli Gwastraff Niwclear (Rôl y Cynulliad)

**C21 Richard Edwards:** Pa rôl a ragwelir gan y Prif Ysgrifennydd ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol yn ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar bolisi rheoli gwastraff niwclear? (OAQ2600)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyfrifoldebau statudol mewn perthynas â gwaredu gwastraff ymbelydrol yng Nghymru. Yn unol â hynny, bydd yn bartner llawn gydag Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill wrth gynnal yr ymgynghoriad. Y bwriad ar hyn o bryd yw cyhoeddi papur ymgynghori yn gynnar y flwyddyn nesaf.

### Buddsoddwyr Cymru (Ariannu a Chefnogaeth)

**C22 Janet Davies:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi'u cael â'r nod o gefnogi ac ariannu buddsoddwyr Cymru? (OAQ2596)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Ers yr haf, cafodd swyddogion y Cynulliad drafodaethau cynhwysfawr gyda'n partneriaid yn y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol ynghylch cefnogi busnesau. Mae'r swyddogion yn awr yn rhoi ystyriaeth ofalus iawn i'r materion sydd yn gysylltiedig â sefydlu banc datblygu neu gronfa debyg ar y cyd â chynrychiolwyr o'r gymuned ariannol.

### Uned Cyffuriau ac Alcohol Cymru

**C23 Jane Davidson:** A yw'r Prif Ysgrifennydd yn gallu nodi beth fydd dyfodol Uned Cyffuriau ac Alcohol Cymru dan y strategaeth a ail-ganolbwyntiwyd yn ddiweddar? (OAQ2623)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Lansir y strategaeth gamddefnyddio sylweddau ailganolbwyntiedig i Gymru yn y flwyddyn newydd. Ar ôl ei lansio, bydd y Cynulliad, gan dderbyn cyngor gan y Panel Ymgynghorol ar Gamddefnyddio Sylweddau a'r rhai sydd yn gweithio yn y maes, yn datblygu manyleb ar gyfer y trefniadau cefnogi cenedlaethol a fydd yn ofynnol yn y dyfodol. Estynnir y contract presennol gydag Uned Cyffuriau ac Alcohol Cymru o flwyddyn ychwanegol hyd 31 Mai 2001 er mwyn caniatáu amser i gwblhau'r gwaith hwn. Cyhoeddir y trefniadau ar ôl y dyddiad hwn yn agosach i'r adeg honno.

### Arian Cyfatebol (Prosiectau)

**C24 William Graham:** A wnaiff y Prif Ysgrifennydd sicrhau'r Cynulliad na fydd unrhyw brosiect

boddhaol yn methu oherwydd diffyg arian cyfatebol ar gyfer cyllid Amcan 1? (OAQ2613)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Bydd arian cyfatebol yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i'r ymgeisydd am y grant fel y bu erioed. Mae hyn yn sicrhau perchnogaeth leol ac ymrwymiad i'r prosiectau sydd yn hanfodol i'w llwyddiant. Mae rheoliadau'r Comisiwn yn darparu ar gyfer cyfraddau uwch o grantiau Ewropeaidd (ac felly llai o ofynion am arian cyfatebol) i fudiadau fel y rhai hynny yn y sector gwirfoddol sydd â llai o fynediad at symiau mawr o arian cyfatebol. Mae nifer o ffynonellau posibl ar gyfer arian cyfatebol gan gynnwys awdurdodau lleol, cwmnïau hyfforddi a menter, cynlluniau llywodraeth, y sector gwirfoddol ac amryw o ffynonellau yn y sector preifat gan gynnwys adnoddau cwmnïau unigol, banciau a ffynonellau eraill.

### Arian Cyfatebol (Cyfnod Rhaglennu Newydd)

**C25 Brian Hancock:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi'u cael ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynglŷn â sicrhau arian cyfatebol gan y Llywodraeth ar gyfer cronfeydd yr UE yn y cyfnod rhaglennu newydd i'w alluogi i ddweud wrth ei gydweithwyr yn y Cabinet bod angen darparu adnoddau digonol i'r Cynulliad ddelio â'r mater hwn? (OAQ26054)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i OAQ2603.

### Partneriaeth Busnes (Proffil)

**C26 Mick Bates:** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Ysgrifennydd i roi proffil uwch i'r Bartneriaeth Fusnes? (OAQ2619)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Dadleuais o'r dechrau fod rhaid i'r Bartneriaeth Fusnes fod yn un o flaenoriaethau uchaf y Cynulliad ac yr wyf yn falch bod y safbwynt hwn wedi derbyn ymateb cadarnhaol iawn oddi wrth arweinyddion busnes. Mae'r Cyngor Partneriaeth Fusnes yn cyfarfod am y tro cyntaf ar 16 Rhagfyr, ac ar ôl hynny bydd cyfarfodydd rheolaidd. Cynhelir y cyfarfodydd yn gyhoeddus. Yn ogystal â hynny cyhoeddais yn ddiweddar benodi Roger Thomas yn Ymgynghorydd Partneriaeth Fusnes i'r Cynulliad neu'n 'Llysgennad dros Fusnes'. Ei rôl fydd cryfhau'r cysylltiadau rhwng Llywodraeth a busnes yng Nghymru.

### Arian Cyfatebol (Amseru a Darpariaeth)

**C27 Elin Jones:** Sut y mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu delio â'r galw am arian cyfatebol ar lefel uchel ar gyfer cronfeydd yr UE o ddechrau'r cyfnod rhaglennu newydd yn sgîl y rheolau newydd ar ddarparu cyllid, ac amseru'r ddarpariaeth honno? (OAQ2610)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd i OAQ2607.

### Cyflogau Staff Cynnal (Systemau Rheoli)

**C28 Glyn Davies:** Pa systemau rheoli sydd mewn grym i sicrhau bod staff cynnal yn cael eu talu ar yr isafswm cenedlaethol o leiaf (ar gyfer pob grŵp oed) a'u bod yn cael eu talu am oriau ychwanegol neu'n cael amser i ffwrdd yn lle hynny? (OAQ2636)

**Y Prif Ysgrifennydd:** Mae'r Swyddfa Ffïoedd yn gwneud gwiriad safonol o'r holl gontractau cyflogaeth a dderbynnir ganddynt, er mwyn sicrhau bod staff cynnal Aelodau'r Cynulliad yn derbyn yr isafswm cyflog cenedlaethol o leiaf. Cyfrifoldeb pob Aelod Cynulliad yw hysbysu'r Swyddfa Ffïoedd am unrhyw oriau ychwanegol y bydd eu staff yn eu gweithio na chymerir amser i ffwrdd yn eu lle. Bydd y Swyddfa Ffïoedd yn trefnu wedyn i dalu am yr oriau ychwanegol hynny.